



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

Coleg Gwyddoniaeth
College of Science

ISRADDEDIG
MATHEMATEG

www.swansea.ac.uk/maths

DADANSODDWR

Elian, MMath Mathemateg
PhD Dadansoddi Mathemategol

CROESO

Rwy'n siŵr y bydd y llyfryn hwn o ddiddordeb ac o ddefnydd i chi ac y bydd yn eich annog i astudio gradd sy'n ymwneud â Mathemateg. Mae gennym staff o fathemategwyr brwdfrydig, sy'n ymhyfrydu yn eu pwnc ac yn cymryd gofal mawr o'u myfyrwyr. Edrychw'n ymlaen at eich ymweliad i ganfod mwy am y cyrsiau. Byddwn yn barod i'ch helpu ym mha bynnag ffordd y gallwn. Mae ein dulliau addysgu ac ymchwil adrannol yn canolbwyntio ar fathemateg gymwysadwy fodern – algebra a thopoleg, hafaliadau differol rhannol, prosesau stocastig, a'u perthnasedd i ffiseg, cyllid a pheirianeg, yn ogystal â phrosesau delweddau a data, echdynnu nodweddion, geometreg gyfrifiadurol a bioleg fathemategol.

Yr Athro Biagio Lucini
Pennaeth Adran

YMWADIAD

Mae'r neges ganlynol yn cynnwys gwybodaeth bwysig iawn. Darllenwch hi cyn i chi ddefnyddio'r llyfryn hwn. Argraffwyd y llyfryn hwn yng ngwanwyn 2017. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y rhaglenni israddedig mewn Mathemateg y mae Prifysgol Abertawe yn bwriadu eu cynnal ar gyfer myfyrwyr sy'n anelu at ddechrau yn y brifysgol yn nhymer yr hydref 2018. Rydym wedi gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn ddefnyddiol ac yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwneud rhai newidiadau, er enghraifft, i raglenni, lleoliad yr astudiaeth, cyfleoedd ar gyfer lleoliadau, cyfleusterau neu ffioedd am resymau staffio, ariannol, rheoliadol ac academaidd dilys. Byddwn yn ymdrechu bob amser i sicrhau cyn lleied o newidiadau â phoisibl ac i roi gwybodaeth briodol amdanynt i ddarparu fyfyrwyr. Caiff unrhyw newidiadau i'r wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn eu diweddarau bob chwarter yn www.swansea.ac.uk/undergraduate-programme-changes ac ar dudalennau'r cyrsiau ar-lein yn: www.swansea.ac.uk/compsci/undergraduate



Mwynheais fy nghwrs yn fawr. Roeddwn yn gwirioni ar natur amrywiol y gwaith a wnaethom ac arbenigedd y staff; gallwch weld eu bod yn frwdfrydig iawn am yr hyn maent yn ei addysgu. Fe wnaeth fy nghwrs fy mharatoi ar gyfer fy ngyrfa yn bendant oherwydd gallaf gymhwyso fy ngradd i rywfaint o'r gwaith a wna. Ers gweithio fel tanysgrifennwr ar gyfer Zurich Financial Services, rwyf wedi gweithio mewn pedair rôl wahanol fel rhan o'r cynllun cylchdroi i raddedigion. Yn fy rôl bresennol rwy'n gweithio yn y maes prisio a thanysgrifennu ar gyfer ein hystod o gynhyrchion mentrau bach a chanolig eu maint. Mae fy swydd yn amrywiol o ran natur ond mae fy mhrif waith o ddydd i ddydd yn canolbwyntio'n bennaf ar rifau, gan ddefnyddio fy sgiliau Excel a mathemategol.

Vicky Stockley
BSc mewn Mathemateg ar gyfer Cyllid

100% MEWN CYFLOGAETH NEU ASTUDIAETH BELLACH I RADDEDIION CHWE MIS AR ÔL GADAEL Y BRIFYSGOL

(data HESA 2014/15)

13^{EG} YN Y DU YN GYFFREDINOL
Guardian University Guide 2017

Sgoriau uchel cyson o ran boddhad myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr



94% YN 2016

CYFRADDAU CYFLOGADWYEDD UCHEL

rydym yn y 14eg safle yn y DU ar gyfer rhagolygon graddedigion
Complete University Guide 2016

RYDYM YN UN O'R 25 O BRIF ADRANNAU MATHEMATEG YN Y DU



AC RYDYM YMYSG Y TRAEAN O'R ADRANNAU GORAU YN Y BYD

Cawn ein rhestru'n gyson gyda'r
ADRANNAU GORAU YN SYSTEM RADDIO FYD-EANG QS

RHAGLENNI BLWYDDYN-MEWN-DIWDYDIANT AR GAEL



DULLIAU ADDYSGU AC YMCHWIL YN CANOLBWYNTIO
ar fathemateg gymwysadwy fodern

Fowndri Gyfrifiadol Gwerth £31m

ar gyfer gwyddorau cyfrifiadurol a mathemategol a fydd yn darparu'r cyfleusterau addysgu diweddaraf o'r radd flaenaf



(o fis Medi 2018)



ABERTAWA DINAS SY’N CYNNIG Y CYFAN

Wrth astudio ym Mhrifysgol Abertawe, byddwch yn rhan o sefydliad ymchwil o safon fyd-eang ag uchelgeisiau mawr. Byddwch yn cael profiad dysgu ac addysgu rhagorol sy’n rhoi pwyslais arbennig ar gyflogadwyedd. Ond byddwch hefyd yn cwmpo mewn cariad â’r ddinas.

Lle bynnag yr ewch yn Abertawe, rydych yn agos at y môr. Mae’n lleoliad gwych ac yn ddinas sydd ar i fyny; mae’n gynnes ac yn gyfeillgar, mae popeth yn hawdd ei gyrraedd ac mae’n cynnig rhywbeth at ddant pawb.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyryr diweddaraf, roeddem yn 8fed yn y DU o ran boddhad myfyryr, ac ar y brig o’n cymharu â phrifysgolion eraill Cymru. Mae’r amgylchedd byw yn Abertawe yr un mor gyfoethog â’r amgylchedd dysgu. O ehanger gwfreiddiol ei thraethau a’i childraethau, i’w bywyd nos cyffrous, dewis gwych o leoedd bwyta i brofiadau siopa unigryw - dyma 378km² o bopeth mae ei angen arnoch am brofiad anhygoel i fyfyrwr.



MAE MATHEMATEG...

YN HEN

Crëwyd mathemateg dros 6000 o flynyddoedd yn ôl, cyn unrhyw bwnc gwyddonol arall. Dros 4000 o flynyddoedd yn ôl, roedd y Babyloniaid yn ymddiddori mewn rhifau. Dechreuodd y Groegiaid astudiaeth systematig o rifau a geometreg dros 2000 o flynyddoedd yn ôl. Dim ond yn ystod y 200 mlynedd diwethaf y datryswyd rhai o’r problemau a godwyd ganddynt. Cafodd theorem olaf Fermat, sydd dros 400 mlwydd oed, ei phrofi o’r diwedd yn 1995. Mae llawer mwy o broblemau i’w datrys o hyd. Er enghraifft, nid ydym yn gwybod hyd heddiw a yw pob eilrif yn gyfanswm dau rif cysefin, neu a oes odrif sy’n gyfanswm ei ffactorau bondrwm.

MODERN

Wrth i ddatblygiad gwyddoniaeth a thechnoleg gwybodaeth barhau, mae angen Mathemateg sy’n fwy soffistigedig. Mae pynciau a astudiwyd mewn modd damcaniaethol yn y gorffennol bellach yn dod yn bwysig yn y meysydd ffiseg gwantwm, cynllunio cyfrifiadurol, peirianeg, a’r diwydiant ariannol. Ar y llaw arall, mae pynciau mathemategol newydd yn dod i’r amlwg, yn cael eu hymchwilio a’u defnyddio i egluro darganfyddiadau mewn ffiseg, cemeg, bioleg, a gwyddor yr amgylchedd.

DEFNYDDIOL

Yn ogystal â’i bwysigrwydd o ran cymwysiadau gwyddonol, mae hyfforddiant mathemategol yn datblygu sgiliau ymresymu rhesymegol ac yn helpu myfyryr i ddatrys problemau ym mhob agwedd ar fywyd. Rhoddir gwerth mawr ar radd Mathemateg yn y farchnad swyddi ac mae graddedigion o Abertawe yn ei chael hi’n hawdd iawn dod o hyd i gyflogaeth ddiddorol a gwerth chweil.

CYFFROUS

Nid oes unrhyw beth yn cymharu â’r pleser a’r boddhad arbennig a gewch o ddatrys problem, neu ddatblygu damcaniaethau i ymdrin â mathau newydd o gwestiynau. A dyma beth yw craidd Mathemateg – datblygu ffyrdd newydd o ddatrys problemau, gan roi’r cyffro hwnnw i ni dro ar ôl tro, ynghyd â dealltwriaeth unigryw o’r byd.

Cynigiwn y rhaglenni gradd canlynol:

G103	4 blynedd	Llaw Amser	MMath Mathemateg
G100	3 blynedd	Llaw Amser	BSc Mathemateg
G110	3 blynedd	Llaw Amser	BSc Mathemateg Bur
G120	3 blynedd	Llaw Amser	BSc Mathemateg Gymhwysol
G101	4 blynedd	Llaw Amser	BSc Mathemateg (gyda Sylfaen integredig)
G190	3 blynedd	Llaw Amser	BSc Mathemateg ar gyfer Cyllid

BSc Cydanrhydedd mewn Mathemateg a:

GC16	3 blynedd	Llaw Amser	Gwyddor Chwaraeon
X2G7	3 blynedd	Llaw Amser	Addysg





FFOWNDRI GYFRIFIADOL

Mae'n gyfnod cyffrous yn hanes Cyfrifiadureg yn Abertawe. Ym mis Medi 2018, byddwn yn symud i adeilad newydd yng nghanol Campws y Bae Prifysgol Abertawe. Bydd y cyfleuster Gwyddor Gyfrifiadol newydd o safon fyd-eang, gwerth £31 miliwn, yn enghraifft ddisglair o gydweithrediadau ymchwil a bydd yn ceisio denu ymchwilwyr blaenllaw i Gymru, gan roi Abertawe wrth wraidd ecosystem ranbarthol ffyniannus o ymchwil a chwmnïau digidol.

Bydd y Ffowndri Gyfrifiadol yn amgylchedd pwrpasol wedi'i adeiladu'n arbennig i fod yn gartref i Wyddonwyr Gyfrifiadol. Mae'r Ffowndri wedi'i chynllunio i gynyddu cydweithio rhwng diwydiant a'r gymuned academiaidd, a bydd yn cynnwys manau ysbrydoledig, ystafelloedd digwyddiadau a seminarau a lleoliadau cyfarfod lle bydd sgysia'u'n gallu ffynnu.

Bydd myfyrwyr yn rhan hanfodol o'r datblygiad hwn: bydd y Ffowndri yn cynnig cyfleusterau addysgu a labordai cyfrifiadura newydd; bydd ein myfyrwyr yn gallu elwa o gyfarpar prosiect

ymchwil ar wahanol adegau yn ystod eu hastudiaethau; yn y bôn, mae ein myfyrwyr yn rhan bwysig o'n cymuned ffyniannus o wyddonwyr cyfrifiadol.

Bydd y Crwsibl Ymchwil yn y Ffowndri'n cynnig cyfleusterau i fwy na 150 o ymchwilwyr, gan gynnwys labordai ymchwil a datblygu, cyfleusterau ar gyfer ôl-raddedigion ac ymchwilwyr a lleoedd rhwydweithio. Bydd yn cynnwys labordai ymchwil pwrpasol a fydd yn cefnogi gwaith profi cysyniadau a phrototeipiau diwydiannol, yn ysgogi cyfleoedd masnachol, entrepreneuriaeth a chreu swyddi, gan arwain at ymgysylltu ystyrion â diwydiant a busnesau o bob maint ac ym mhob sector.

Bydd y Ffowndri'n sefydlu ecosystem ddigidol o fri rhyngwladol ar gyfer ymchwil gwyddor gyfrifiadol o'r radd flaenaf sy'n tynnu ymchwil rhyngddisgyblaethol ynghyd ac yn mynd i'r afael â'r heriau mawr sy'n wynebu'r economi a chymdeithas dan dair thema, sef Cynnal Bywyd; Gwella Bywyd, a Sicrhau Bywyd.



BETH YW'R PRIF WAHANIAETHAU RHWNG Y RHAGLENNI?

Gradd pedair blynedd sy'n anelu at roi gwybodaeth drylwyr am bob agwedd ar Fathemateg i fyfyrwyr hynod ddawnus yw ein rhaglen MMath flaenllaw. Mae'r rhaglen hon ar gyfer y rhai sy'n awyddus i ddilyn gyrfa neu astudiaeth israddedig sy'n fathemategol iawn.

Mae ein Rhaglenni Gradd Anrhydedd Sengl tair blynedd yn cwmpasu'r ystod gyffredinol o ddeunydd mathemategol ac yn caniatáu i chi ganolbwyntio ar un agwedd benodol ar y pwnc (Pur, Cymhwysol neu Gyllid), neu astudio amrywiaeth o ddeunydd gyda'r radd Mathemateg.

Mae ein gradd cydanrhydedd yn rhoi'r cyfle i chi gyfuno Mathemateg â Gwyddor Chwaraeon neu Addysg. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnig opsiynau gyrfa pellach neu'n rhoi'r posibilrwydd o wneud cynnydd cyflym mewn gyrfa addysgu. Os byddwch yn dewis astudio Mathemateg neu Fathemateg ar gyfer Cyllid cewch y cyfle i dreulio blwyddyn mewn lleoliad diwydiannol rhwng ail a thrydedd flwyddyn eich cwrs. Rydym hefyd yn cynnig rhaglen Anrhydedd sy'n cynnwys blwyddyn Sylfaen integredig (blwyddyn 0) sy'n addas ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar y cefndir angenrheidiol i gael mynediad ym blwyddyn 1. Yn ystod y flwyddyn sylfaen honno bydd fyfyrwyr yn astudio modiwlau sy'n seiliedig ar y maes llafur Mathemateg Safon Uwch craidd, ynghyd â modiwl ar sgiliau astudio, a rhai modiwlau ategol o bynciau eraill o fewn y Coleg Gwyddoniaeth. Caiff y rhain eu darparu mewn ffordd sy'n anelu at hwyluso'r broses bontio i astudiaeth Brifysgol. Ar ôl y flwyddyn sylfaen, bydd y cynllun yn dilyn yr un strwythur â gradd BSc Mathemateg.

BYWYD FEL MYFYRIWR MATEMATEG

MODIWLAU

Mae rhaglen gradd yn cynnwys set o fodiwlau. Fel arfer caiff pedwar neu bum modiwl eu haddysgu ym mhob semester 11 wythnos (mis Medi tan fis Rhagfyr, mis Chwefror tan fis Mai). Mae gan bob rhaglen gradd feini prawf penodol, sy'n nodi pa fodiwlau sy'n orfodol, gan ddarparu'r deunydd craidd hanfodol ar gyfer y rhaglen honno, a pha opsiynau sydd gennych. Mae mwy o wybodaeth am ein modiwlau ar y tudalennau canlynol, a cheir manylion llawn ar wefan yr adran: www.swansea.ac.uk/maths

Ar gyfer pob modiwl, byddwch fel arfer yn cael dwy neu dair darlith yr wythnos, lle bydd y darlithydd yn disgrifio'r prif syniadau a'r damcaniaethau, gan ddangos y rhain yn aml gydag enghreifftiau ymarferol. Yn dilyn hynny byddwch yn dyfnhau eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth drwy gwblhau taflenni enghreifftiau rheolaidd, mynd i ddsbarthiadau problemau, ac astudiaeth annibynnol. Mae ein myfyrwyr anrhydedd sengl Blwyddyn 1 yn mynychu cyfanswm o tua 17 awr o ddsbarthiadau yr wythnos, sy'n cynnwys 12 darlith, pedwar dosbarth problemau ac un tiwtorial.

DARLITHOEDD

Mae darlithoedd yn para 50 munud. Bydd y darlithydd yn eich arwain drwy'r deunydd gan ddefnyddio'r cyfryngau priodol – bwrdd neu daflunydd data yn aml, fideo o bosibl neu degan ar ffurf cath mewn rhai achosion. Trafodir llawer o bethau mewn un ddarlith, mwy nag yn yr ysgol, ac yn fanylach nag y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gyfarwydd ag ef. Bydd ein system gymorth o ddsbarthiadau problemau a thiwtorialau yn eich helpu gyda phroblemau na allwch eu datrys.

CYMORTH YCHWANEGOL: DOSBARTHADAU PROBLEMAU, TIWTORIALAU, AC ORIAU SWYDDFA

DOSBARTHADAU PROBLEMAU:

Mae Dosbarthiadau Problemau yn para 50 munud ac ym Blwyddyn 1 fe'u cynhelir ar gyfer pob modiwl unwaith yr wythnos. Yn ystod y sesiynau hyn, bydd y sawl sy'n cynnal y dosbarth yn trafod enghreifftiau ac yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau cyffredin sydd wedi cael eu hamlygu yn y gwaith a gyflwynwyd gan y myfyrwyr.



TIWTORIALAU:

Dynodir tiwtor academaidd ar gyfer ein myfyrwyr Blwyddyn 1 ar ddechrau'r flwyddyn, a byddant yn cwrdd â'r tiwtor yn wythnosol gyda nifer fach (fel arfer pump neu chwech) o fyfyrwyr eraill ar gyfer tiwtorial. Yn ogystal ag ateb ymholiadau mathemategol penodol, gall tiwtoriaid hefyd ddefnyddio'r amser i roi trosolwg o bynciau rydych wedi'u hastudio mewn darlithoedd neu agwedd neu safbwynt gwahanol arnynt, neu drafod agweddau gwahanol ar Fathemateg.

LABORDAI CYFRIFIADUROL:

Mae nifer o'n modiwlau dewisol ym Mlynnyddoedd 1-3 yn cynnwys cydrannau cyfrifiadurol, a addysgir gan ddefnyddio pecynnau mathemategol ac ystadegol safonol modern y diwydiant gan gynnwys SPSS a MATLAB. Mae'r modiwlau hyn fel arfer yn cynnwys sesiwn 50 munud mewn labordy cyfrifiadurol bob wythnos lle bydd fyfyrwyr yn dysgu dulliau cyfrifiadurol, wedi'u harwain gan daflenni gwaith ac adnoddau ar-lein, o dan oruchwyliaeth un aelod o staff neu fwy.

ORIAU SWYDDFA:

Gall pob myfyriwr Mathemateg ymgynghori â staff academaidd yn ystod Oriau Swyddfa penodedig, pan fydd staff ar gael yn eu swyddfeydd i ateb cwestiynau ar unrhyw fater.

GWAITH CWRS AC ARHOLIADAU

Y ffordd orau o ddsygu Mathemateg yw drwy ymarfer. Disgwylir i fyfyrwyr gyflwyno gwaith cwrs yn rheolaidd: un daflen enghreifftiau ym mhob modiwl bob wythnos yn ystod Blynnyddoedd 1 a 2. Fel arfer bydd y gwaith cwrs hwn yn cyfrannu 20% tuag at y marc cyffredinol a ddyfernir ar gyfer y modiwl, a bydd arholiad 2 awr ffurfiol yn cyfrif am yr 80% sy'n weddill. Bydd fyfyrwyr yn sefyll yr arholiad yn fuan ar ôl i'r cyfnod addysgu ddod i ben. Mae'r ffaith bod 20% o'r marc terfynol yn dod o'r gwaith cwrs yn golygu bod llai o bwysau ar yr arholiad ffurfiol, ac mae hefyd

yn rhoi cyfle i ni ac i chi fonitro eich cynnydd. Caiff marciau o Flwyddyn 2 a lefelau dilynol eu cyfuno, gan roi mwy o bwyslais ar y lefelau uwch, er mwyn pennu dosbarth eich gradd derfynol.

TIWTORIAID PERSONOL

Mae tiwtor personol yn cael ei neilltuo i fyfyrwyr mathemateg bob blwyddyn a fydd yn:

- bwynt cyswllt cyntaf i chi o ran adran weinyddol y brifysgol
- gallu eich rhoi mewn cysylltiad ag asiantaethau'r brifysgol, megis Gwasanaethau Llesiant
- eich cynghori ac yn monitro eich cynnydd academaidd
- darparu geiradaon pan fyddwch yn dechrau chwilio am swyddi

CYMORTH DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Gall myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ddewis cael tiwtorialau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae rhai deunyddiau darlithoedd ar gael yn Gymraeg. Mae'n bosibl i brosiectau a wneir yn y flwyddyn olaf gael eu goruchwyllo yn Gymraeg hefyd. Mae llawer o'n rhaglenni gradd yn gymwys ar gyfer ysgoloriaethau o'r Coleg. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Dr. Kristian Evans (K.Evans@abertawe.ac.uk).

SUMSOC: EIN CYMDEITHAS MYFYRWYR

Cymdeithas a gaiff ei chynnal gan y myfyrwyr yw SUMsoc (Cymdeithas Fathemateg Prifysgol Abertawe) sy'n anelu at helpu myfyrwyr Mathemateg Abertawe ym mhob blwyddyn ddod i adnabod ei gilydd a helpu ei gilydd. Mae sesiynau galw heibio wythnosol, lle y gall myfyrwyr ofyn cwestiynau ynghylch taflenni enghreifftiol, nodiadau darlithoedd neu agweddau eraill ar eu cwrs i bwyllgor y gymdeithas, yn boblogaidd iawn, ynghyd â digwyddiadau cymdeithasol y gymdeithas.

CYFLEUSTERAU

Mae Ystafell Aubrey Truman, sydd yng nghanol yr Adran Fathemateg, yn gartref i lyfrgell yr adran a'r cyfrifiaduron at ddefnydd y myfyrwyr. Mae'n lleoliad poblogaidd i fyfyrwyr weithio'n annibynnol ar y taflenni enghreifftiau rheolaidd a ddosberthir gan eu darlithwyr, ac i drafod Mathemateg gyda'i gilydd.

Yn ein prif lyfrgell yn y brifysgol, Gwasanaethau a Systemau Gwybodaeth, mae casgliad helaeth o lyfrau Mathemateg.

Mae cyfrifiaduron cyfoes y brifysgol ar gael i bob myfyrwr ar gyfer astudiaeth breifat a gwaith cwrs, mewn labordai cyfrifiadurol a llyfrgelloedd.

GWOBRAU

Rydym yn dyfarnu nifer o wobrau Adrannol:

Gwobr Iau Foulkes mewn Mathemateg Bur

Dyfernir i'r myfyrwr sy'n cwblhau Blwyddyn 1 gyda rhagoriaeth eithriadol mewn Mathemateg Bur.

Gwobr Lynne Charles mewn Mathemateg

Dyfernir i'r myfyrwr sy'n dangos teilyngdod eithriadol mewn gwaith a asesir gan yr Adran Fathemateg ar gyfer Blwyddyn 2.

Gwobr Uwch Foulkes mewn Mathemateg Bur

Dyfernir i'r myfyrwr sy'n graddio gyda rhagoriaeth eithriadol mewn Mathemateg Bur.

Gwobr Oldroyd mewn Mathemateg Gymhwysol

Dyfernir i'r myfyrwr sy'n graddio gyda'r perfformiad mwyaf neilltuoled mewn Mathemateg Gymhwysol.

Gwobr Prosiect Hanes Mathemateg David Pryce

Dyfernir ar gyfer y prosiect Mathemateg blwyddyn olaf gorau ym Mlwyddyn 3.

Gwobr Rowland Wilson mewn Mathemateg Bur

Dyfernir i fyfyrwr graddedig sydd wedi cwblhau darn o waith sy'n dangos teilyngdod eithriadol a dderbyniwyd i'w gyhoeddi neu ar gyfer Gradd Meistr ym Mhrifysgol Abertawe.





Yn dilyn fy astudiaethau ym Mhrifysgol Abertawe yn cyflawni Gradd Meistr Gwyddoniaeth mewn Mathemateg Ariannol, rwyf bellach yn gweithio yn Deutsche Bank yn Llundain fel rhan o'r tîm Gwasanaethau Ariannol Strwythuredig yn darparu gwasanaethau cleientiaid ar gyfer portffolios benthyca a dyled corfforaethol.

Mae natur gymhleth y cwrs wedi fy helpu i ddod yn wneuthurwr penderfyniadau rhesymegol ac yn ddatrysyr problemau medrus iawn. Mae'r sgiliau trosglwyddadwy hyn yn ddefnyddiol iawn ym myd Cyllid gan fod y rôl yn heriol iawn wrth i ni weithio tuag at derfynau amser a thargedau trosglwyddo strwythuredig.

Mae fy astudiaethau ym Mhrifysgol Abertawe hefyd wedi fy nghyfoethogi â sgiliau arwain a chymhelliant ac wedi gwella fy sgiliau cyfathrebu. Rwy'n gweithio mewn tîm clos o 10 o bobl mewn adran fawr sy'n annog diwylliant sy'n anelu at ddysgu a gweithio'n effeithiol mewn tîm.

Cefais amser arbennig ym Mhrifysgol Abertawe ac rwy'n trysori'r llu o atgofion melys. Rwyf mor falch fy mod yn ehangu fy ngorwelion mewn canolfan ariannol fawr.

Rhian Ivey, BSc Mathemateg, MSc Mathemateg a Chyfrifiadura ar gyfer Cyllid



BETH BYDDWCH CHI'N EI DDYSGU?

BLWYDDYN 1

Mae pob un o'n myfyrwyr, sef myfyrwyr anrhydedd sengl sy'n astudio ar gyfer naill ai ein graddau BSc tair blynedd neu'r radd MMath pedair blynedd, a'r rhai sy'n astudio rhaglenni cydanrhydedd sy'n cyfuno Mathemateg a phwnc arall, yn meithrin sylfaen gadarn ar gyfer eu haddysg fathemategol drwy ddilyn craidd cyffredin o bedwar modiwl ym Mlwyddyn 1.

Mae'r pedwar modiwl craidd hyn yn cynnwys dau fodiwl dadansoddi: Cyflwyniad i Galcwlws a Chyflwyniad i Ddadansoddi, sy'n cyflwyno ac yn datblygu cysyniadau megis setiau, ffwythiannau, terfynau, gwahaniaethu ac integreiddio, a dau fodiwl algebra:

Sylfeini Algebra a Chyflwyniad i Algebra Llinol, sy'n ymdrin â hanfodion rhesymeg, profi a thrin algebra. Yn dilyn hynny caiff myfyrwyr eu cyflwyno i strwythurau algebra haniaethol, rhifau cymhleth, fectorau, matricesau a blas cyntaf ar ofodau fector haniaethol.

Tymor 1 (Hydref - Ionawr)	Tymor 2 (Chwefror - Mehefin)
Modiwlau craidd ar gyfer pob myfyrwr	Modiwlau craidd ar gyfer pob myfyrwr
Cyflwyniad i Galcwlws	Cyflwyniad i Ddadansoddi
Sylfeini Algebra	Cyflwyniad i Algebra Llinol

Bydd y craidd cyffredin hwn yn ffurfio hanner eich modiwlau blwyddyn gyntaf. Ar gyfer myfyrwyr cydanrhydedd, byddwch yn cyflawni hanner arall eich astudiaethau yn eich pwnc arall; i gael manylion, edrychwch ar ein gwefan www.swansea.ac.uk/maths

Ar gyfer y rhan fwyaf o'n myfyrwyr anrhydedd sengl, mae tri modiwl gorfodol pellach yn y tymor cyntaf: Dulliau Algebra a Chalcwlws, sy'n cyfuno ac yn atgyfnerthu dulliau sylfaenol mewn algebra a chalcwlws, gan adeiladu ar yr hyn y byddwch wedi'i ddysgu ar Safon Uwch gan gysylltu â'r modiwlau algebra a dadansoddi craidd, Geometreg Glasurol, sy'n cyflwyno strwythurau geometreg sylfaenol mewn dau a thri dimensiwn a modiwl Sgiliau Allweddol, sy'n datblygu sgiliau datrys problemau mathemategol, defnyddio pecynnau meddalwedd cyfrifiadurol a sgiliau cyflwyno.

Yn dilyn hynny bydd y cyfryw fyfyrwr fel arfer yn dewis dau o dri modiwl dewisol yn yr ail dymor, yn dibynnu ar eu diddordebau mathemategol eu hunain. Y tair ffrwd yw Ystadegau Cymhwysol, Mecaneg Glasurol (gronynnau) a Dulliau Cyfrifiadurol (gyda Matlab). Mae rhai rhaglenni gradd yn ei gwneud yn ofynnol i'r dewisiadau hyn gynnwys modiwl penodol. Er enghraifft, ar gyfer y BSc mewn Mathemateg Bur, dylai'r ddau ddewis gynnwys y modiwl Ystadegau Cymhwysol, ac ar gyfer BSc mewn Mathemateg Gymhwysol dylid dewis Mecaneg Glasurol (gronynnau). Bydd myfyrwyr sy'n dilyn y rhaglen gradd BSc mewn Mathemateg ar gyfer Cyllid yn astudio'r modiwlau Dulliau Cyfrifiadurol (gyda Matlab) ac Ystadegau Cymhwysol.

Tymor 1 (Hydref i Ionawr)	Tymor 2 (Chwefror - Mehefin)
Modiwlau gorfodol ar gyfer myfyrwyr anrhydedd sengl	Modiwlau dewisol ar gyfer myfyrwyr anrhydedd sengl
Dulliau Algebra a Chalcwlws	Ystadegau Cymhwysol
Geometreg Glasurol	Mecaneg Glasurol (gronynnau)
Sgiliau Allweddol ar gyfer Mathemategwyr	Dulliau Cyfrifiadurol (gyda Matlab)

BLWYDDYN 2

Mae ein modiwlau Blwyddyn 2 yn dilyn strwythur tebyg i Fodiwlau Blwyddyn 1, gan ddatblygu i ddeunyddiau mwy datblygedig. Caiff y craidd cyffredin ei ymestyn a'i atgyfnerthu gyda phedwar modiwl pellach mewn algebra a dadansoddi y bydd pob myfyriwr yn eu cymryd.

Mae'r modiwlau Blwyddyn 2 dewisol ar gyfer myfyrrwyr anrhydedd sengl yn y tymor cyntaf yn cwmpasu Geometreg Uwch a Dulliau Rhifiadol (gyda Matlab). Yn ystod yr ail dymor y dewisiadau yw Tebygolrwydd, Damcaniaeth Gemau ac Optimeiddio, a Mecaneg Glasurol (gwrthrychau anhyblyg).

Bydd myfyrrwyr sy'n astudio BSc mewn Mathemateg ar gyfer Cyllid yn dilyn modiwlau Dulliau Pellach Algebra a Chalculws, Dulliau Rhifiadol, Tebygolrwydd a Damcaniaeth Gemau. Rhaid i fyfyrwyr MMath astudio Damcaniaeth Tebygolrwydd.

	Tymor 1 (Hydref-Ionawr)	Tymor 2 (Chwefror-Mehefin)
Modiwlau craidd ar gyfer pob myfyriwr	Dadansoddiad Gwirioneddol a Gofodau Metrig Gofodau Fector	Calculws Fector a Damcaniaeth Mesur Grwpiau a Chylchoedd
Modiwlau gorfodol ar gyfer myfyrrwyr anrhydedd sengl	Dulliau Algebra a Chalculws Pellach	
Modiwlau dewisol ar gyfer myfyrrwyr anrhydedd sengl	Geometreg Uwch Dulliau Rhifiadol (gyda MATLAB)	Damcaniaeth Tebygolrwydd Mecaneg Glasurol (gwrthrychau anhyblyg) Damcaniaeth Gemau ac Optimeiddio


BLWYDDYN 3 A M (MATH)

Yn ystod y blynyddoedd hyn daw'r modiwlau yn fwy arbenigol, gan archwilio meysydd penodol yn fanwl. Mae ein holl fyfyrwyr yn dilyn dau fodiwl gorfodol uwch yn eu trydedd flwyddyn:

- Newidynnau Cymhleth, sy'n datblygu calculws ar gyfer ffwythiannau enrhifedog cymhleth, pwnc sydd â llawer o gymwysadau mewn Mathemateg a ffiseg
- Algebra Uwch, sy'n astudio grwpiau, cylchoedd a meysydd fel gwrthrychau algebra haniaethol ac yn cyflwyno categorïau fel iaith a grym unedig mewn Mathemateg fodern.

MODIWL PROSIECT

Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn dilyn modiwl prosiect sy'n cyfateb i chwarter o'r marciau ar gyfer eu blwyddyn derfynol. Mae hyn yn rhoi cyfle gwych i archwilio pwnc mathemategol a dysgu pynciau newydd yn annibynnol, a datblygu galluedd o



ran chwilio am lenyddiaeth, cynlluniau prosiectau, cyflwyniadau ysgrifenedig ac ar lafar ac ysgrifennu adroddiadau. Mae cyflogwyr yn rhoi gwerth mawr ar y cyfryw sgiliau.

MODIWLAU DEWISOL

Mae dewis eang ac amrywiol o opsiynau ar gael i'n myfyrrwyr ym Mlwyddyn 3 ac M, sy'n caniatáu i fyfyrwyr unigol ddefnyddio'r sylfaen gadarn a adeiladwyd yn ystod eu dwy flynedd gyntaf o astudio er mwyn arbenigo yn ôl eu diddordebau eu hunain. Mae llawer o'r dewisiadau hyn yn ystyried ac yn defnyddio diddordebau ymchwil ac arbenigedd aelodau o'n staff. Isod ceir detholiad o bynciau sy'n cael eu cynnig yn rheolaidd:

- Mathemateg Gyllidol
- Dadansoddi Ffwythiannol
- Dadansoddiad Fourier
- Hafaliadau Differol
- Hafaliadau Differol Rhannol
- Geometreg Ddifferol
- Topoleg
- Grwpiau Lie ac Algebrâu Lie
- Algebra Cymhwysol: Damcaniaeth Codio
- Prosesau Stocastig
- Calculws Itô a Hafaliadau Differol Stocastig
- Damcaniaeth Black-Scholes
- Dadansoddiad Rhifiadol
- Dulliau rhifiadol ar gyfer Hafaliadau Differol Cyffredin a Hafaliadau Differol
- Dynameg Ddadansodol
- Electromagneteg
- Mecaneg Ystadegol
- Modelu Mathemategol
- Biomathemateg
- Addysgu Mathemateg drwy Leoliad mewn Ysgol

YMCHWIL YN ABERTAWE

Cafodd rhagoriaeth ymchwil ein Hadran Fathemateg ei chydnabod yn Ymarfer Asesu Ymchwil (RAE) y DU yn 2008, a chafodd ein Hadran ei graddio fel y cryfaf yng Nghymru. Hyd yn oed yn bwysicach na'r RAE yw barn y gymuned ryngwladol am ein hymchwil. Yn yr Adolygiad Rhyngwladol o Fathemateg yn y DU yn 2010, nodwyd bod gwaith ein hymchwilwyr ym maes dadansoddiadau stocastig yn cyfrannu at arweinyddiaeth fyd-eang y DU yn y maes hwn.

Mae diddordebau ymchwil ein Hadran yn rhannu'n fras yn bum prif elfen: algebra a thopoleg, dadansoddiadau a hafaliadau differol rhannol anllinol, dadansoddiadau stocastig, dulliau mathemategol mewn bioleg a gwyddorau bywyd a phrosesu delweddau a data, echdynnu nodweddion a geometreg gyfrifiadurol. Dyma flas ar rai o'r pynciau penodol sy'n cyffroi ein hymchwilwyr ymhob un o'r pum grŵp hyn ar hyn o bryd. Byddwch yn sylwi ar gysylltiadau rhwng y meysydd ymchwil hyn a'r ystod eang o ddewisiadau modiwl a gynigir i'n myfyrrwyr ym Mlwyddyn 3 a M (MMath).

ALGEBRA A THOPOLEG

- Geometreg Anghymudol
- Algebrâu, cydalgebrâu a chydysamplu Hopf
- Dulliau categorig ar gyfer algebra a thopoleg
- Categoriâu trionglog
- Damcaniaeth-K
- Algebrâu o weithrediadau a chydweithrediadau ar gyfer cohomoleg a Damcaniaeth-K
- Damcaniaeth homotopeg ac algebra homologaidd
- Topoleg o wagleoedd modiwl, operadau a thopoleg is-ddimensiynol
- Damcaniaeth cylchoedd a modiwlau

DADANSODDIADAU A HAFALIADAU DIFFEROL RHANNOL ANLLINOL

- Damcaniaeth rheoleidd-dra ar gyfer gweithredwyr math p-Laplace
- Hafaliadau Navier-Stokes mewn dynameg hylifol
- Ffenomena crynhoed mewn hafaliadau anllinol Schrödinger
- Cymhlethod yng nghalculws amrywiadau
- Hafaliadau a systemau ymateb-tryledu-dargludo
- Gweithredwyr ffug-wahaniaethol yn cynhyrchu hanner grwpiau

DADANSODDIAD STOCASTIG


- Anghydraddoldebau a chymwysadau ffwythiannol
- Hafaliadau differol rhannol stocastig a chymwysadau at fecaneg hylifol
- Prosesau math Lévy
- Tebygolrwydd (cwantwm) anghymudol
- Dull stocastig o fodelu systemau ffractal, amlffractal ac amlraddfa
- Dull rhifiadol o efelychu prosesau stocastig
- Dadansoddiad stocastig dimensiynol anfeidraidd

PROESU DELWEDDAU A DATA, ECHDYNNU NODWEDDION A GEOMETREG GYFRIFIADUROL

- Lleihau sŵn o ddelweddau a setiau data
- Amcangyfrif a rhyngosod data a samplwyd yn afreolaidd
- Echel ganolig amlraddfa
- Echdynnu nodweddion o ddelweddau a gwrthrychau geometrig e.e. ymylon, corneli, croestoriadau, pwyntiau terfyn cromlinau, ffiniau neu arwynebau
- Canfod osgiladu ar gyfer delweddau a setiau data
- Dulliau cyfrifiadurol ar gyfer prosesu delweddau
- Cymwysadau i ddelweddau meddygol a dyluniad geometrig drwy gymorth cyfrifiadurol

DULLIAU MATEMATEGOL MEWN BIOLEG A GWYDDORAU BYWYD

- Ffarmacoleg Fathemategol
- Modelau trosglwyddo gwres a màs ar gyfer oeri cyfarpar
- Modelu dynameg trosglwyddo signal cellog
- Oncoleg Fathemategol: Dull amlraddfa o fodelu twf, datblygiad a therapiau canser, a modelu dull wedi'i optimeiddio o ddarparu therapïau aml-ddull
- Dadansoddiad amlraddfa o fodelau ar sail unigol
- Cyflymderau lledaenu a thonau teithio mewn ecoleg
- Cyfrifiadura Perfformiad Uchel



Dadansoddwr

“Dwi’n dwlu ar Ddadansoddi Mathemategol - mae wrth wraidd amrywiaeth eang o bynciau”

ELIAN RHIND, 23 YN ASTUDIO AM PHD MEWN DADANSODDI MATHEMATEGOL



Dwi’n dwlu ar Ddadansoddi Mathemategol - mae wrth wraidd amrywiaeth eang o bynciau. Byddwn i wrth fy modd yn datblygu rhywbeth a allai fod yn sylfaen mathemateg newydd a chyffrous. Byddai gallu cyfrannu at rhywbeth o ddefnydd yn y maes yn rhoi boddhad mawr i mi.

Mae mathemategwyr yn ceisio modelu’r byd rydym yn byw ynddo ar ddarn o bapur. Wrth i ni nodi patrymau neu ymddygiad diddorol ymysg gwahanol bethau, rydym yn llunio damcaniaeth ynghylch y rheswm tu ôl i’n harsylwadau.

Ond y dasg anodd yw profi’r honiadau hyn. Dyna’r rhan gyffrous, wrth i ni geisio profi rhywbeth nad oedd yn cael ei dderbyn fel gwirionedd o’r blaen. Mae llawer o bethau rydym yn eu cymryd yn ganiataol heddiw na fyddai’n bodoli oni bai am fathemategwyr yn gwthio’r terfynau i ehangu’n gwybodaeth o sut mae’r byd yn gweithio.

Dwi wedi cyrraedd y pwynt yma ar ôl pum mlynedd ym Mhrifysgol Abertawe - ond nid oherwydd cyngor a chefnogaeth fy narlithwyr yn unig. Mae cymryd rhan ym mywyd y brifysgol wedi datblygu fy sgiliau a’r hunanhyder angenrheidiol i gwblhau fy ngwaith.

Wrth i mi raddio, enillais y wobwr am berfformiad neilltuol yn y flwyddyn olaf ar y rhaglen MMath (Anrhydedd) Mathemateg. Penderfynais ddod i Abertawe achos roedd gan y Brifysgol yr adran fathemateg orau yng Nghymru yn ôl yr arolygon, ynghyd â dewis cryf o chwaraeon a chlybiau. Fwi’n nofio’n rheolaidd, felly roedd pwll maint Olympaidd yn atyniad. Roeddwn i’n teimlo’n gartrefol yn yr Adran Fathemateg yn fuan iawn ond roedd ymaelodi â chymdeithasau’n ffordd ddelfrydol o gwrdd â phobl newydd a dod yn fwy annibynnol. Mwynheais fy amser fel myfyriwr israddedig yn fawr a dwi’n dal i fwynhau bywyd ôl-raddedig.


Roeddwn i’n meddwl mai rhywun tawel oeddwn i, ond ar hyn o bryd, rwy’n gweithio gyda’r adran i helpu ac annog disgyblion ysgol a hyrwyddo astudio Mathemateg Bellach.

Mae’r brifysgol mewn lleoliad gwych hefyd. Gan ei bod nesaf at y traeth ac yn agos at ganol y ddinas a’r Mwmbwls, mae cynnig digon o gyfleoedd i chi fynd allan a mwynhau bywyd.



Penderfynais ddod i Abertawe achos roedd gan y Brifysgol yr adran fathemateg orau yng Nghymru yn ôl yr arolygon, ynghyd â dewis cryf o chwaraeon a chlybiau.

Elian Rhind



RHAGOLYGON GYRFA

Un o brif nodau'r Brifysgol yw "paratoi a hyrwyddo cyflogadwyedd myfyrwyr". Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gyflawni'r nod hwn drwy ddarparu gwasanaethau sy'n gallu eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r rhinweddau i gael eich swydd gyntaf. Bydd y priodoleddau hyn, maes o law, yn eich galluogi i reoli eich gyrfa yn y dyfodol yn effeithiol. Caiff sgiliau gyrfa eu hymgorffori yn y cwricwlwm Mathemateg o Flwyddyn 1 hyd at Flwyddyn M a chaiff Gweithdai Cyflogadwyedd gydag areithiau gan gyflogwyr graddedig fel PriceWaterhouseCoopers, IBM, Cyfarwyddiaeth Ystadegol y Llywodraeth a chan amrywiaeth o gyrff proffesiynol yn cynnwys y Sefydliad Mathemateg a'i Gymwysiadau (IMA) eu trefnu'n rheolaidd.

Menter ddiweddar arall a gyflwynwyd gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe yw "SPIN" (Rhwydwaith Interniaeth â Thâl Abertawe) sy'n helpu myfyrwyr israddedig i gael gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr o fywyd gwaith. Gall myfyrwyr ymgymryd â phrosiect neu ystod o brosiectau gyda busnes yn ystod cyfnod yr haf. I gael rhagor o fanylion, ewch i wefan Academi Cyflogadwyedd Abertawe: www.swansea.ac.uk/sea

Bydd ein graddau yn eich paratoi ar gyfer gyrfa werth chweil mewn ystod eang o feysydd megis y proffesiwn actwaraidd, y sector ariannol, TG, addysgu, cyfrifiadura a chyfluoedd o fewn busnes a diwydiant lle mae cyflogwyr yn gofyn am fathemategwyr ar gyfer ymchwil a datblygu, dadansoddi ystadegol, marchnata a gwerthiannau. Mae graddedigion diweddar wedi cael swyddi yn Deutsche Bank, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, AXA, BA, Shell Research, BMW, KPMG, Tesco, Procter and Gamble, Zurich Financial Services, Rolls-Royce Submarines, PRA International, Awdurdodau Iechyd a'r Llywodraeth Leol er enghraifft.



www.swansea.ac.uk/sea

SAFBWYNT RHYNGWLADOL

Mae gan yr Adran Fathemateg a'r Coleg Gwyddoniaeth gymuned ryngwladol gyfoethog gyda llawer o gysylltiadau rhyngwladol. Mae myfyrwyr o 80 o wledydd ledled y byd wedi dewis astudio ein graddau israddedig, graddedig ac ymchwil.

Mae'r adran yn gwbl ryngwladol gyda staff o Awstralia, Belarus, Gwlad Pwyl, India, Rwsia, Sbaen, Tsieina, UDA, y Dwyrain Canol, yr Almaen, yr Eidal a'r Wcráin. Mae hyn yn golygu bod gennym lawer o brofiad o'r heriau y mae myfyrwyr yn eu hwynebu wrth ddod o wlad arall.

- Mae Abertawe yn ddinas amlddiwylliannol ddiogel a chyfeillgar gyda chostau byw is na'r rhan fwyaf o'r DU
- Rydym dair awr o Lundain ar drên uniongyrchol
- Rydym yn cynnig dosbarthiadau cymorth Saesneg academiaidd am ddim i fyfyrwyr rhyngwladol llawn amser cofrestredig
- Mae Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr Rhyngwladol ar gael am ddim i roi help a chynghor gyda gofal iechyd, visas ac ati

Ewch i'r tudalennau rhyngwladol ar ein gwefan i gael gwybodaeth am wledydd penodol, fideos myfyrwyr a llawer mwy - www.swansea.ac.uk/science/international

“
Rwyf wrth fy modd â'r ystod o bynciau ar y cwrs. Mae'r darlithwyr hefyd bob amser yn gyfeillgar ac maent ar gael os oes gennych unrhyw broblemau.

*Malgorzata Swietlik (o Wlad Pwyl)
 MMath Mathemateg*

SUT I WNEUD CAIS

Dylai myfyrwyr o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd wneud cais drwy UCAS, y system gwneud cais safonol ar gyfer prifysgolion y DU - www.ucas.ac.uk

 Gall ymgeiswyr o'r tu allan i'r UE wneud cais yn uniongyrchol drwy'r wefan: www.swansea.ac.uk/international/students/apply

Pan fyddwn yn derbyn eich cais byddwn yn eich gwahoddi i ddod i un o'n Diwrnodau Ymweld i Ymgeiswyr. Mae'r rhain yn gyfle gwych i chi archwilio Prifysgol Abertawe a'r cyfan sydd ganddi i'w gynnig. Mae teithiau arwain o gwmpas y campws, y llefy a'r cyfleusterau chwaraeon fel arfer ar gael yn y bore, ac yn y prynhawn cewch gyfle i drafod eich diddordebau gyda ni'n unigol mewn cyfweiliad, i gael rhagor o wybodaeth am y radd, i gael blas ar Fathemateg mewn prifysgol mewn darlith fer, i gyfarfod â staff a myfyrwyr presennol a gofyn unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Os nad ydych yn siŵr p'un ai i wneud cais am y radd tair blynedd BSc mewn Mathemateg (G100) neu'r radd MMath bedair blynedd (G103), nodwch ei bod fel arfer yn bosibl newid rhwng y rhaglenni hyn o fewn y ddwy flynedd gyntaf o astudio. Rydym hefyd yn ceisio bod mor hyblyg â phosibl i ganiatáu i fyfyrwyr symud rhwng rhaglenni gradd eraill.

PA GYMWYSTERAU SYDD EU HANGEN ARNAF OS WYF YN YMGEISYDD YN Y DU?

BSc: Safon Uwch/Bagloriaeth Cymru: AAB-BBB neu gyfatebol i gynnwys Mathemateg BR (Bagloriaeth Ryngwladol): 32-34 i gynnwys o leiaf 6 mewn Mathemateg Lefel Uwch (LU)

MMath: Safon Uwch/Bagloriaeth Cymru: AAA neu gyfatebol i gynnwys Mathemateg BR: 36 i gynnwys o leiaf 6 mewn Mathemateg LU

Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion mynediad, mae'n bosibl y cewch eich ystyried ar gyfer BSc Mathemateg (gyda Sylfaen Integredig).

Edrychwch ar y tudalennau cwrs unigol ar ein gwefan am feini prawf mwy diweddar a manwl sy'n ymwneud â phynciau penodol: www.swansea.ac.uk/undergraduate/courses

PA GYMWYSTERAU SYDD EU HANGEN ARNAF OS WYF YN YMGEISYDD O'R UNDEB EWROPEAIDD NEU'N YMGEISYDD RHYNGWLADOL?

Rydym yn croesawu ymgeiswyr ryngwladol ac o'r UE gydag ystod eang o gymwysterau. Rydym wedi cynnwys y rhan fwyaf o'r rhain ar y tabl isod. Nodwch mai dim ond arweiniad yw'r rhain. Os nad yw eich gwlad wedi'i rhestru, cysylltwch â maths-admissions@abertawe.ac.uk neu ar gyfer ymholiadau Rhyngwladol cysylltwch â international-science@abertawe.ac.uk

Saesneg - Rydym yn gofyn am IELTS 6.0 (gyda 6.0 ym mhob elfen) neu brawf Saesneg cyfatebol.

BWRSARIAU AC YSGOLORIAETHAU

Mae traddodiad gan yr Adran Fathemateg o gynnig nifer o ysgoloriaethau adrannol hyd at gyfanswm o £3000, a ddyfernir ar sail arholiad cystadleuol a gynhelir cyn y Pasg ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau eu hastudiaethau'r mis Medi canlynol. Bydd myfyrwyr sy'n gwneud cais yn cael manylion os yw'r ysgoloriaethau hyn yn cael eu cynnig yn ystod blwyddyn benodol.

Mae cymorth ariannol gan lawer o ffynonellau ar gael i helpu myfyrwyr i astudio yn Abertawe. Mae Prifysgol Abertawe yn dyfarnu nifer o Fwrsariau Rhagoriaeth i bob myfyrwr sy'n cyflawni AAA yn Safon Uwch (neu gyfatebol) sydd werth £3000 dros dair blynedd; Ysgoloriaethau Teilyngdod i bob myfyrwr sy'n cyflawni AAB yn Safon Uwch (neu gyfatebol) sydd werth £2000 dros dair blynedd; Bwrsariau sy'n Gysylltiedig ag Incwm; Ysgoloriaethau Chwaraeon; yn ogystal ag Ysgoloriaethau Adrannol fel y nodir uchod.

I gael manylion am ysgoloriaethau ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, ewch i wefan ein Swyddfa Ddatblygu Rhyngwladol - www.swansea.ac.uk/international/students/fees-andfunding/scholarships

 Am yr wybodaeth ddiweddaraf am ein gofynion mynediad, ewch i'n gwefan www.swansea.ac.uk/science

YR WYBODAETH DDIWEDDARAF

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am astudio yn Abertawe, ewch i www.swansea.ac.uk/undergraduate ac i gael gwybodaeth am astudio Mathemateg yn Abertawe, ewch i www.swansea.ac.uk/math/undergraduate

CYSYLLTU

Ar gyfer ymholiadau neu i gael gwybodaeth bellach am Fathemateg yn Abertawe, cysylltwch â study@abertawe.ac.uk neu ffoniwch +44 (0)1792 295111

Mae'r Brifysgol yn cynnal Diwrnodau Agored ar gyfer darpar ymgeiswyr yn ystod yr haf a'r hydref, lle mae'r Adran Fathemateg yn cynnal digwyddiadau: www.swansea.ac.uk/open-days. Os na allwch ddod i Ddiwrnod Agored ond yr hoffech ymweld ar ddyddiad gwahanol, cysylltwch â ni a byddwn yn hapus i wneud trefniadau.

“

Heb yr ysgoloriaeth hon fyddwn i ddim wedi cael amser i fwynhau fy nghyfnod yn Abertawe, neu efallai fyddwn i ddim wedi llwyddo i ddod i'r Brifysgol o gwbl. Mae astudio ym Mhrifysgol Abertawe wedi bod yn bleser. Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn antur ryfeddol, o ddarganfod diwylliant Cymreig i ddysgu gan rai o'r darlithwyr gorau i mi gwrdd â nhw erioed.

Y peth sy'n sefyll allan i mi am Abertawe yw'r gefnogaeth aruthrol a gewch fel myfyriwr – gan bawb! Pryd bynnag roedd gen i broblem, boed yn bersonol, yn academiaidd neu'n ariannol, roedd rhywun yno i roi cyngor i mi, i wrando arnaf ac i'm helpu.

Ar ôl graddio hoffwn ddilyn astudiaethau ôl-raddedig mewn Cryptograffeg neu Ddamcaniaeth Codio. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at hyn gan fod fy amser yma fel myfyriwr yn sicr wedi fy mharatoi i wynebu'r byd ac i ddal ati i wireddu fy mreuddwydion.

Alissa Kamilova
Myfyriwr PhD, Prifysgol Rhydychen



$$x)u(x) = u(x) \int_{\mathbb{R}^3} \frac{u^2(y)}{|x-y|} dy$$

$$-1 \rightarrow \sum_{-\infty}^{\infty} \pi(mL)^2$$

$$q^{2\xi(2)}$$

“ Mae mathemategwyr yn ceisio modelu'r byd rydym yn byw ynddo ar ddarn o bapur. Wrth i ni nodi patrymau neu ymddygiad diddorol ymysg gwahanol bethau, rydym yn llunio damcaniaethau ynghylch y rheswm posib y tu ôl i'n harsylwadau. ”